# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 15fed Tachwedd, 2022 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| County Councillorr Sue Riley (Chairman)<br><br>County Councillors: Christopher Edwards, Jayne McKenna, Maureen Powell, Maria Stevens, Jackie Strong and John Crook | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Chesney Chick, Service Manager - Youth Offending Service |

**APOLOGIES:** County Councillor David Jones

1. **Ethol Is-gadeirydd**

   Enwebwyd y Cynghorydd Powell a'r Cynghorydd Crook fel ymgeiswyr ar gyfer Is-gadeirydd. Yn dilyn pleidlais, etholwyd y Cynghorydd Crook fel Is-gadeirydd.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

   Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd unrhyw sylwadau wedi eu derbyn.

4. **Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid**

   Roedd Chesney Chick wedi rhoi trosolwg byr o'r adroddiad arolwg ac wedi ateb cwestiynau'r Aelodau gyda Jane Rodgers.

   **Her:**

   *Nid yw'n ymddangos bod llawer o bwyslais yn yr adroddiad ar waith ataliol a gwn eich bod wedi derbyn grant o tua £170k gan Lywodraeth Cymru. A oes yna wybodaeth am sut y mae'r arian wedi ei wario gan nad wyf yn medru gweld hynny yn yr adroddiad.*

   Ni fyddai hyn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn sydd yn statudol ei natur; fodd bynnag, rydym wedi newid y ffordd y mae'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn gwneud ei waith ac mae yna fwy o bwyslais ar waith ataliol yn hytrach na'r cyfrifoldebau statudol yn unig, ac mae cyfran sylweddol o arian wedi ei roi i ni er mwyn medru gwneud hyn. Rydym yn teimlo bod

ansawdd y gwasanaeth yr ydym yn darparu yn dda iawn ond mae dal yn bosib gwneud gwelliannau.

*O ran yr arolwg a gynhaliwyd dros y ddwy sir yn Nhorfaen a Sir Fynwy, a yw'r arolwg wedi ei gynnal yn gydradd rhwng y ddwy sir neu wedi ffocysu'n fwy ar un ardal, ac felly'n methu rhoi'r darlun cyflawn i ni?*

Mae yna dueddiad i rannu hyn 60:40, gan ffafrio Torfaen, ond cynhaliwyd yr adolygiad mewn modd da.

*Roedd llywodraethiant ac arweinyddiaeth yn bryder o ran y broses anwytho, presenoldeb y cyfarfodydd bwrdd a'r datgysylltiad rhwng yr aelodau bwrdd a'r staff rhengflaen, gydag argymhellion wedi eu gwneud. Pa mor hir fu'r problemau yma ac a yw popeth wedi ei ddatrys erbyn hyn?*

Mae'r aelodau etholedig wedi newid gydag ychydig o addasu ers cyfnod Covid. Roedd yna gyfnodau yn ystod y pandemig pan oedd Aelodau'r Bwrdd yn methu mynychu  ond bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu wrth i ni symud ymlaen. Rhaid i'r cydweithwyr iechyd fynychu sawl cyfarfod bwrdd a dyna oedd un o'r rhesymau dros hyn. Mae'r Cadeirydd newydd yn brofiadol iawn ac mae ganddo gefndir yn y gwasanaeth a gobeithio bod hyn yn rhoi sicrwydd i chi.

Un o'r pethau sydd yn ymwneud gyda llywodraethiant ac sydd wedi ei gydnabod yw bod llawer o ddogfennau a gweithdrefnau gennym ond nid ffordd o weithio wydd yn dwyn hyn ynghyd, ac rydym yn gweithio ar hyn.

*Rwy'n bryderus fod merched yn gyfrifol am 28% o achosion y gwasanaeth sydd yn ddwywaith y ffigwr cyfartalog ar gyfer Lloegr a Chymru. Gan fod 61% o'r staff yn ferched a dau draean o'r gwirfoddolwyr yn ferched, roedd yn rhyfedd fod yr arolwg yn nodi'r angen i ddatblygu strategaeth er mwyn diwallu anghenion merched sydd wedi ei oruchwylio gan y gwasanaeth.*

O ran yr ystadegau ar ferched, mae mwy o wybodaeth gennym nawr na chynt ac mae'r patrwm yma wedi dod i'r amlwg dros y 6 mis diwethaf. Cyn yr arolwg, nid oedd y data yma gennym, ac nid oeddem wedi cadarnhau'r rhesymau am hyn, ond mae'n deg dweud nad yw hyn yn nifer uchel o unigolion ond mae'r darlun yn edrych yn waeth wrth i ni ddefnyddio canrannau.  Rydym yn sylwi bod rhai o'r troseddau yn fwy difrifol ac nid ydym yn medru gwneud y gwaith ataliol ond rydym yn dechrau gwneud gwaith yn yr ysgolion a thrwy'r gwasanaeth ieuenctid er mwyn mynd i'r afael gyda hyn.

*Roedd yr ymateb i'r 'arolwg  technoleg' yn isel iawn gydag ond 12 o 121 o ymatebion. Pam fod hyn mor isel? Ac a ydy hyn yn cynnig trawstoriad o atebion neu ond y rhai yn credu bod y gwasanaeth yn bositif? Sut ydych yn bwriadu cynyddu'r nifer sydd yn ymateb?*

Mae'n isel ac er ein bod wedi blaenoriaethu ymgysylltu, mae'n flaenoriaeth isel i blant, ac mae'n anodd felly eu gorfodi i ymateb  ond rydym am dderbyn adborth parhaus gan blant a'u teuluoedd ac rydym yn sylweddoli nad ydynt am ymgysylltu gyda ni am ryw reswm.  Rydym yn ystyried digwyddiadau neu gynhadledd gyda gwobrau er mwyn annog adborth gan blant. O ran y cwestiwn a yw'r adborth yn wirioneddol onest, rwy'n teimlo ei fod, a hynny gan fy mod yn adnabod yr unigolion sydd wedi ymateb.

*Nid oeddwn yn medru gweld unrhyw dargedau penodol yn y cynllun gweithredu am ddefnyddwyr gwasanaeth, er enghraifft, menywod, bechgyn, Plant Sy'n Derbyn Gofal, grwpiau*

*BME ayyb. A oes targedau gennych? A ydynt yn realistig a sut fyddant yn llywio eich gwaith wrth i symud ymlaen?*
*Na – ni ydym yn gwneud hyn. Rydym yn ymwybodol o'n sefyllfa gyfredol o ran y nifer uwch o ferched, ac felly, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol a'n gwneud gwaith ataliol mewn sefydliadau addysg a gwasanaethau ieuenctid er mwyn sicrhau ein bod yn trafod unrhyw bryderon sydd gennym gyda'r carfannau priodol. Rydym yn gwybod pwy yw'r troseddwyr sy'n ail-droseddu ac rydym yn ceisio lleihaun hyn ond mae nifer o ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth. Rydym wedi trefnu cynlluniau ar gyfer yr unigolion yma, ac rwy'n medru eich sicrhau ein bod yn gweithredu dull holistaidd o weithio gyda phartneriaid er mwyn cynnig cymorth sydd wedi ei deilwra.*

*Nid wyf yn medru gweld unrhyw ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg neu'r rhai sydd â Saesneg fel ail iaith? A oes modd i chi esbonio hyn?*
Nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg wedi dod drwy'r system sydd yn golygu'r angen i gyfathrebu yn y Gymraeg, ond pe bai hyn yn digwydd, mae siaradwyr Cymraeg yn yr Awdurdod ac rydym yn medru cynnig cyfieithiad.
*Rwy'n medru gweld nad oedd Swyddog Prawf am 10 mis. Oni fyddai hyn wedi cael effaith, a pha fesurau y byddwch yn rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau gweithlu sefydlog?*
Roedd rhywun yn gwneud y rôl honno dros dro, ac roeddynt yn wybyddus i'r gwasanaeth ac yn brofiadol iawn ac nid oedd yn wag am 10 mis. Mae yna brosesau a systemau o fewn y gwasanaeth prawf, ac felly, byddai cyfarfodydd wedi eu cynnal a gwybodaeth wedi ei rhannu yn ystod y cyfnod hwn.

*Yn yr adroddiad, nid wyf yn gweld unrhyw sôn am 'raglenni cyfiawnder adferol' ac mae profiad gennyf o wedi gwneud hyn yng Nghil-y-coed rhai blynyddoedd yn ôl a oedd yn llwyddiannus iawn. Yn sgil yr ymddygiad gwrthgymdeithasol diweddar yn yr ardal, a fyddai modd ystyried ail-gyflwyno hyn?*
Mae yna raglenni cyfiawnder adferol gennym o fewn y gwasanaeth ac mae'r person sydd yn rheoli hyn dal yn y rôl. Mae'r modd y mae wedi ei weithredu yn Nhorfaen gyda chryn lwyddiant, ac er nad yw'r arolwg wedi nodi hyn, mae modd i ni drafod hyn ymhellach. **Cam Gweithredu: Chesney i gysylltu gyda Cyngor Tref Cil-y-coed.**
*Rwyf yn prdyeri am blant sydd o bosib ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cael eu targedu gan grwpiau troseddol. A oes modd gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â hyn gan fod rhai pobl ifanc yn medru bod yn ddioddefwyr hefyd.*
Rwy'n medru rhoi sicrwydd i chi bod asesiad cadarn yn cael ei gynnal ar ddechrau'r broses, gan siarad gyda'r ysgol a'r wybodaeth wedyn yn cael ei rhannu ag asiantaethau, fel bod pawb yn ymateb i'r plentyn yn y ffordd gywir a bod y plentyn yn derbyn unrhyw gymorth ychwanegol sydd angen. Mae yna lawer o weithgarwch o ran llinellau cyffuriau, gyda phobl ifanc yn cael eu targedu, ac felly, rydym yn cael trafodaethau gyda'r Heddlu, y llysoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac os ydym yn credu bod plentyn yn fregus, rydym yn medru argymell nad yw'n cael ei erlyn ac ystyried ffyrdd o sicrhau ei fod yn teimlo'n fwy diogel.

*Mae cwestiwn gennyf am adnoddau. A oes yna danwariant bob blwyddyn a beth mae'n cael ei wario arno fel arfer?*

Mae yna danwariant wedi bod dros amser, sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo nôl i'r partneriaid. Roedd yna ychydig o adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer gwasanaethau ataliol. Mae'r arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio er mwyn diogelu'r gwasanaeth gan fod ffynonellau arian yn medru bod yn ansefydlog a'n effeithio'n andwyol ar staffio a chysondeb darpariaeth y gwasanaeth.

*Sut mae'r cyfraniadau gwahanol tuag at wariant y bartneriaeth o £1.6m yn cael eu cadarnhau?*
Nid wyf yn medru cynnig ateb penodol ynglŷn â sut y maent yn cael eu cadarnhau ond rwy'n gwybod fod cyfraniad Sir Fynwy ychydig yn is gan ein bod yn cyfrannu elfennau eraill fel cymorth ariannol ond mi wnâi gadarnhau'r wybodaeth yma.

*A yw'r holl bobl sydd yn meddu ar bryderon lles neu'n Blant Sy'n Derbyn Gofal yn meddu ar weithiwr cymdeithasol ar wahân o fewn gwasaanethau cymdeithasol?*
Ydyn – ac mae nifer eraill o weithwyr proffesiynol a gweithwyr cymorth yn medru chwarae rhan hefyd.

*A oes yna broblem ynglŷn â lletya pobl ifanc sy'n dod allan o'r carchar?*
Rydym yn gweithio gyda llawer o asiantaethau gwahanol er mwyn helpu pobl ifanc i fynd yn ôl i mewn i'r gymuned yn dilyn cyfnod yn y ddalfa, er mwyn eu helpu i osgoi ymddygiad negatif. Nid yw lletya wedi bod yn broblem i ni gan nad ydym wedi cael achosion sydd yn trosglwyddo nôl o fod yn y ddalfa i mewn i'r gymuned ond rydym yn ymwybodol o'r effaith bosib a'r angen i gefnogi'r person ifanc. Rydym yn ceisio sicrhau bod cynrychiolwyr o'r sector tai yn rhan o'n bwrdd rheoli, a byddwn yn datblygu hyn.

*Mae yna achosion diweddar o gasineb at fenywod wedi bod o fewn Heddlu Gwent ac a yw hyn yn effeithio ar y nifer uwch o fenywod sydd yn dod i mewn i'r system?*
Nid wyf yn medru ateb hyn mewn gwirionedd ond mae perthynas dda gennym gyda Heddlu Gwent ac os oes problem gydag unrhyw berson ifanc sy'n cael ei atgyfeirio, mae yna bwynt cyswllt gennym, ac os oes unrhyw wersi i'w dysgu, mae hyn yn cael ei rannu. Mae yna baneli craffu ar gael fel Panel Adolygu Monitro Gwent sydd yn craffu pethau fel amser yn y ddalfa, sut y mae plant yn cael eu prosesu ayyb ac mae yna welliannau ynglŷn â sut mae plant yn cael eu prosesu drwy'r system – ac felly, hoffem feddwl nad yw hyn wedi effeithio ar fenywod ond byddaf yn codi hyn. **Cam Gweithredu: Chesney i amlygu hyn mewn cyfarfodydd rhwydwaith.**
**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i chi am ddod a llongyfarchiadau ar ganlyniad da o ran yr arolwg. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd gan yr atebion yr ydych wedi eu darparu, ac felly, diolch.

5. **<u>Adroddiad Blynyddol: Prif Swyddog, Gofal Cymdeithasol</u>**

Roedd y Cadeirydd wedi gofyn i'r Prif swyddog i ateb unrhyw gwestiynau a oedd heb eu hateb ac wedi eu rhannu cyn y cyfarfod, a hynny'n dilyn y sesiwn graffu flaenorol.
**Her:**

*Faint yw'r gost ar gyfer y lleoliadau mwyaf costus?*
Byddai'r rhain yn amrywio rhwng £1,000 yr wythnos a £8,000 yr wythnos.
*A ydynt wedi eu hariannu gan ddwy ran neu tair rhan?*
Ar hyn o bryd, mae 3 lle wedi ei ariannu'n ddwy rhan, y naill gan iechyd a'r llall gan addysg.
*Faint o'r rhain sydd yn y bracedi cost uchaf?*
33 ar hyn o bryd ond mae'n amrywio.
*Pwy sydd ynddynt? A oes diagnosis ganddynt? A ydynt wedi eu gorchymyn gan y Llysoedd a/neu'n wybyddus i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid?*
Mae pob un heblaw 2 mewn lleoliad addysg ar orchmynion statudol. Mae anghenion y plant naill ai yn anableddau cymhleth neu'n drawma cymhleth / trafferthion ymlyniad. Mae lleiafrif bach yn wybyddus i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ond nid oes unrhyw blant mewn lleoliadau lle mai'r peryg o droseddu yw prif reswm am fod y plentyn angen bod mewn gofal.
*Rwy'n poeni am y costau hirdymor a'r strategaethau sydd gennych mewn hinsawdd ariannol anodd.*
Byddwn yn blaenoriaethu recriwtio gofalwyr maeth mewnol ond mae'n ymwneud gyda sicrhau bod y gofalwyr maeth yr ydym yn datblygu yn datblygu eu sgiliau fel eu bod yn medru gofalu am blant mwy cymhleth. Dyma un o'n ffyrdd o osgoi gorfod defnyddio lleoliadau costus ac rydym am weld ein plant yn byw yn Sir Fynwy. Mae 4 cartref gennym sydd yn cael eu datblygu ond mae hyn yn cymryd amser. Ar lefel ranbarthol, rydym yn ymgysylltu gyda phartneriaid yng Ngwent er mwyn ehangu'r ddarpariaeth rhanbarthol. Wrth wraidd hyn oll, rydym angen mwy o ofalwyr maeth. **Cam Gweithredu**: Jane i ddanfon gwybodaeth ar ofalwyr maeth i'r Rheolwr Craffu er mwyn rhannu hyn ymhlith Aelodau i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned.
*Gan gydnabod bod rhai o'r achosion yn gymhleth iawn, rwy'n bryderus fod angen i ni sicrhau eu bod yn medru delio gyda'r achosion yma*
Ydym - rydym yn ofalus iawn o sut ydym yn paru plant gyda gofalwyr maeth, ac yn y pendraw, nhw sydd i ddewis a byddwn yn eu cefnogi.
**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i chi am ddod ac ateb y cwestiynau a oedd heb eu hateb.

## 6. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Pobl

Cytunwyd i ohirio'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol tan 28ain Chwefror a gweithio ag eraill o ran amseru'r adroddiad seibiant.
Hysbyswyd y Pwyllgor ei fod wedi derbyn cais gan Gyngor Tref Cas-gwent bod y Pwyllgor Craffu yn adolygu'r gwasanaethau ar gyfer mân anafiadau. Cytunodd y Pwyllgor i aros am drafodaeth yn y dyfodol gan y Cyngor Llawn.
Cytunodd y Pwyllgor i drafod y rhaglen Llinellau Cyffuriau ac Ecsbloetio Plant ar gyfer gweithdy craffu ar gyfer y dyfodol. **Cam Gweithredu: Rheolwr Craffu yn ychwanegu at y rhaglen waith.**

## 7. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

8. **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27ain Medi 2022 a'r Pwyllgor Craffu ar y Cyd (Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg a'r Pwyllgor Craffu Pobl) a gynhaliwyd ar 11eg Hydref 2022**

   Cadarnhawyd y cofnodion a'u llofnodi fel cofnod cywrain, a chafodd hyn ei gynnig gan y Cynghorydd Butler a'i eilio ar gyfer y Cynghorydd Rooke.

9. **Cyfarfod nesaf - 10 Ionawr 2023**

The meeting ended at **11.25 am**